# Dadansoddi a Gwerthuso stigmateiddio

**Dadansoddi a Gwerthuso AA2 ac AA3**

## Cyflwyniad

**Stigma**

Dadleuodd Goffman (1968) fod pobl â namau corfforol a phroblemau iechyd meddwl yn aml yn cael eu stigmateiddio.

Dadleuodd fod dau fath o stigma:

- stigma amlwg sy'n weladwy i bawb, er enghraifft unigolyn y mae ei goesau wedi'u torri i ffwrdd ac sydd o bosibl yn defnyddio cadair olwyn neu goes prosthetig.
- stigma llai amlwg nad yw mor weladwy neu sy'n anweladwy hyd yn oed megis unigolion sy'n drwm eu clyw, unigolion ag epilepsi neu awtistiaeth.

## Tasg 1: (AA3)

Trafodwch sut y gallai pobl ryngweithio â defnyddiwr cadair olwyn.

## Tasg 2: (AA3)

Dadansoddwch beth a olygir gan y cwestiwn - A yw'n cymryd siwgr?

## Tasg 3: (AA3)

Cymharwch a chyferbynnwch waith y cymdeithasegwyr isod sydd hefyd wedi gwneud gwaith ar stigma.

Ysgrifennwch baragraff byr ar;

A. Scambler a Hopkins (1986)

B. Hall (1993)

C. Gray (2002).

© WJEC CBAC LTD 2017

# Dadansoddi a Gwerthuso stigmateiddio

## Tasg 4: (AA3)

Dadansoddwch a gwerthuswch ateb y myfyriwr i'r cwestiwn isod:

**Eglurwch pam bod rhai cymdeithasegwyr yn dadlau y gall pobl ag anableddau gael eu stigmateiddio [20]**

Cyfeirir at y term anabledd fel anfantais y mae pobl yn ei hwynebu heb ddewis. Yn wahanol i'r rheini â salwch, nid oes yn rhaid i'r rheini ag anabledd, yn ôl Parsons (1951), ddilyn y rheol dwy hawl a dwy rwymedigaeth yn syml am na allant wella. Gall anabledd meddygol gyfeirio at unrhyw beth meddyliol a chorfforol sy'n golygu bod unigolyn o dan anfantais o ryw fath. Gellir byw bywyd beunyddiol heb ormod o broblemau yn achos rhai anableddau meddygol, ond mae angen cymorth a gofal 24/7 ar gyfer mathau eraill.

Gwahaniaethodd Goffman (1970) rhwng math o stigma amlwg a math o stigma llai amlwg. Roedd ei waith yn canolbwyntio'n bennaf ar anabledd a stigma ac felly roedd ganddo safbwynt clir a dealltus iawn ar y pwnc. Dadleuodd fod stigma amlwg yn golygu bod unigolyn yn cael ei ystyried yn 'anarferol' o gymharu ag unigolyn cyffredin ac na ellid osgoi na chuddio ei symptomau, boed yn gorfforol neu'n feddyliol (y ddau mewn rhai achosion). Roedd y math hwn o stigma yn gwneud bywyd yn anodd i'r unigolyn.

Ar y llaw arall, gellid cuddio stigma llai amlwg ac nid oedd yn weladwy nac yn bosibl sylwi arno. Gallai unigolyn â'r math hwn o anabledd barhau â'i fywyd heb orfod dweud wrth bobl am ei anabledd.

**Tasg 4 estyniad:**

a. A oes cyflwyniad clir a pherthnasol?

Dylai pob ateb ddechrau gan gyfeirio at y cwestiwn ac mae hyn yn arbennig o bwysig yn y cwestiynau 20 marc lle ceir cyfyngiad ar yr amser sydd gennych i greu argraff dda ar yr arholwr gan ddangos eich bod yn gwybod beth y mae'r cwestiwn yn ei ofyn.

Yn amlwg, nid yw'r ymgeisydd hwn wedi ymdrin â'r cwestiwn ar unwaith.

Ysgrifennwch ychydig frawddegau sy'n ymdrin â manylion penodol y cwestiwn.

b. A yw'r ymgeisydd wedi ateb y cwestiwn drwy gydol yr ateb neu a yw wedi colli ei ffocws?

Mae'r paragraff cyntaf cyfan yn ateb cwestiwn ar anabledd meddygol. Gellid bod wedi sicrhau ei fod yn berthnasol i'r cysyniad o stigma a stigmateiddio ond fel y saif, mae'n gyffredinol.

Ychwanegwch at y paragraff mewn ffordd a fydd yn ei newid o baragraff cyffredinol i baragraff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â manylion penodol y cwestiwn.

c. Mae'r cwestiwn wedi gofyn pam bod rhai cymdeithasegwyr, hynny yw lluosog, felly er mwyn

© WJEC CBAC LTD 2017

cyrraedd y bandiau marciau uchaf, dylid cyfeirio at waith o leiaf dau gymdeithasegydd perthnasol.

Ysgrifennwch baragraff ar ail gymdeithasegydd perthnasol sy'n ymdrin â manylion penodol y cwestiwn.

© WJEC CBAC LTD 2017